# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 14eg Ebrill 2025
Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Gareth Jones, Sian Parri, Alun Williams, Henry Hughes, Catrin Williams, Cynghorydd Gareth T Jones

Ymddiheuriadau: Chris Brady, Deio Williams, John Davies, Sioned Pearson, Alan Hughes

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Ymddengys na fu i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno i'r Adran Cynllunio fel y disgwylid mis diwethaf. Bydd y Clerc yn cysylltu a cwmni Hayden Williams Cyf i geisio derbyn diweddariad .
   b. **Polisi Gosod Tai** – Dywedodd Sian Parri ei bod yn awyddus i sefydlu is bwyllgor iaith fel y ffordd ymlaen – gofynnodd am gynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Aberdaron/Botwnnog a Tudweiliog – codwyd Henry Hughes, Terry Hughes a Heulwen Williams o Gyngor Cymuned Tudweiliog.
   c. **Hysbysfwrdd –** Derbyniodd y Clerc gadarnhad nad oes yr un o'r ddau hysbysfwrdd wedi eu gosod – bydd y Clerc yn cysylltu a'r ddau gwneuthurwr.
   Ch. **Ffordd Beudu Bigyn am Sarn –** Derbyniodd y Clerc ebost gan yr adran Priffyrdd yn dweud fod y gwaith wedi ei nodi ar y rhaglen clytwaith yn y flwyddyn ariannol newydd.

4. Gohebiaeth:

   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.
   b. **Cais Cynllunio C25/0165/46/C – Gors y Wrach, Dinas –** Dim Sylw

5. Unrhyw fater arall

   a. Adroddodd y Cynghorydd Gareth Tudur Jones ei fod wedi bod o amgylch ardal ei etholiad gan holi trigolion y ward os oedd unrhyw fater yn eu poeni – daeth i'r amlwg fod trigolion Dinas yn parhau i fod yn awyddus i weld safle bws a chysgod i'r plant sy'n disgwyl bws Ysgol – bydd y Cynghorydd yn cysylltu a'r Clerc hefo mwy o wybodaeth.
   b. Daeth pryder i sylw'r Cyngor Cymuned fod dwr yn croni rhwng Plas ym Mhenllech a Parc – bydd y Clerc yn cysylltu ar adran Priffyrdd.
   c. Derbynwyd sylw fod gwartheg fferm Hirdre Fawr yn croesi'r ffordd fawr pan yn cael eu godro – sy'n beryglus pan nad yw'r cerbydau sy'n teithio yn disgwyl gweld gwartheg ar y lon. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd gan ofyn fyddai'n bosib gosod arwydd ffordd 'gwartheg yn croes'.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Mai 12egd am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn.